Adran Treth y Cyngor
Swyddfeydd Dinesig,
Heol Holton,
Y Barri
CF63 4RU
Ffôn: (01446)709564

# The Vale of Glamorgan Council
# Cyngor Bro Morgannwg

## Ffurflen Ymholiad Treth y Cyngor

**Rhif Yr Eiddo:**

**Dyddiad:**
**Dyddiad Dychwelyd:**

**Darllenwch y ffurflen yn ofalus cyn ei llenwi a'i hanfon yn ôl erbyn y dyddiad uchod**

## Adran A - Person Atebol

Mae'r rhan hon o'r ffurflen yn cynnwys hysbysiad o dan Reoliad 3 Rheoliadau Treth y Cyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 (O.S. 1992 Rhif 613). **Mae'n rhaid i chi anfon y wybodaeth ofynnol yn ôl cyn pen 21 diwrnod.**
Edrychwch ar y rhestr ganlynol er mwyn cael gwybod pwy a ddylai dalu am eich cartref. Os oes rhywrai yn eich tŷ sy'n cyfateb i'r disgrifiadau canlynol, dyna'r bobl 'atebol' a hwy a fydd yn gyfrifol amdalu'r bil.

POBL ATEBOL

| | | |
|---|---|---|
| A | Rhydd-ddeiliaid | - Pobl sydd wrthi'n prynu eu tŷ neu'n sy'n berchen ar y tŷ eisoes. |
| B | Lesddeiliaid | - Pobl sy'n prynu eu tŷ neu wedi cymryd y tŷ ar brydles hir. |
| C | Tenantiaid statudol neu sefydlog | - Pobl sy'n rhentu eu tŷ. |
| Ch | Pobl sydd wedi cael caniatâd drwy gontract i fyw mewn tŷ | - Pobl sy'n cael byw mewn tŷ p'un a fyddant yn talu rhent ai peidio. |
| D | Unrhyw breswylwyr eraill | - Unrhyw bobl sy'n byw mewn tŷ boed ganddynt ganiatâd ai peidio. |

Er mwyn i'r Cyngor ddod i wybod pwy'n union sy'n gyfrifol am dalu'ch Treth y Cyngor, **gofynnwn i chi enwi pob un** dros 18 oed sy'n defnyddio'ch tŷ fel ei brif gartref. Enwau'r bobl atebol yn unig a fydd yn cael eu cofnodi ar y cyfrifiadur.
**Os ydych yn ystyried tŷ arall yn BRIF gartref i chi, a'ch bod yn dal i ddychwelyd i dŷ eich teulu o bryd i'w gilydd, er enghraifft, bydd yn rhaid i chi lenwi adran B.**

| Cyfenw | Teitl | Enwau blaen | ✓ Partner neu Berson Atebol | Statws Person Atebol sef A, B, C, Ch neu D | Dyddiad Prynu'r tŷ/ Cychwyn y Denantiaeth (ar ôl 1st Ebrill 1993) | Dyddiadd symud i'r tŷ (ar ôl 1st Ebrill 2004) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

Enwau pobl atebol yn unig a fydd yn cael eu cofnodi ar y cyfrifiadur.
**A oes unrhyw ran or adeilad a allai gael ei ddefnyddio fel cartref ar wahân? Oes ☐ Nac oes ☐**

CYFEIRIAD BLAENOROL:

______________________________

______________________________

Dyddiad symud allan: ___/___/___
Dyddiad symud y celfi: ___/___/___
Dyddiad gwerthu'r ty (dod â'r denantiaeth i ben): ___/___/___
Enw'r deiliad / lesddeiliad / tenant newydd:

______________________________

CYFEIRIAD NEWYDD:
Dyddiad symud i mewn:: ___/___/___
Dyddiad symud y celfi i mewn: : ___/___/___
Enw a chyfeiriad y deiliad blaenorol:

______________________________

______________________________

Cyfreithiwr / Asiantaeth Reoli'r deiliad blaenorol:

______________________________

## Adran B - Atebolrwydd Perchnogion / Lesddeiliaid Ail Gartrefi

Enw'r Perchennog: ______________________________

Cyfeiriad y Perchennog: ______________________________
Dyddiad Prynu'r tŷ / Chychwyn y brydles / i'r deiliaid blaenorol symud allan: ___/___/___
Os nad oes pobl yn byw yn y tŷ: A oedd yr adeilad wedi'i: Ddodrefnu ☐ Heb ei ddodrefnu ☐
Os oes pobl yn byw yn y tŷ: a yw'n un o'r canlynol:

(Ticiwch bob blwch perthnasol)

- ☐ Cartref gofal neu nyrsio
- ☐ Hostel neu dy a rannwyd yn ystafelloedd byw a chsysgu lle mae pawb yn rhannu cyfleusterau ymolchi a choginio
- ☐ Cartref gweinidog
- ☐ Tŷ lle mae pawb o dan 18 oed (Mae lleoedd fel y rhain wedi'u heithrio rhag talu treth)

**Os gwelwch yn dda Parhau Drosodd**

## Adran C - Cais am Ostyngiad Person Sengl

ENW LLAWN: ______________________________________________

Gallaf gadarnhau mai fi fydd yr unig oedolyn dros 18 oed sy'n byw yn y tŷ dan sylw o ___/___/___ ymlaen. Byddaf yn hawlio gostyngiad person sengl. (Os ydych yn ei hawlio am fod rhywun a fu'n byw gyda chi'n symud allan, nodwch enw llawn y person hwnnw, ei ddyddiad symud a'i gyfeiriad newydd (os medrwch) yn ADRAN Dd isod).

## Adran Ch - Cais am Ostyngiadau Eraill

Mae'n bosibl hefyd y cewch hawlio:

(i) 25% o ostyngiad ar eich bil Treth y Cyngor os yw pawb yn eich adeilad **ac eithrio un** yn perthyn i'r grwpiau canolynol NEU
(ii) 50% o ostyngiad os yw pawb yn yr adeilad yn ddiethriad yn perthyn i'r grwpiau hynny.

Os yw **pawb** sydd fel arfer yn byw yn eich adeilad yn perthyn i'r grwpiau a nodwyd â seren (*), mae'n bosibl na fydd yn rhaid i chi dalu unrhyw Dreth y Cyngor o gwbl.

- ☐ * Myfyrwyr
- ☐ Nyrsys o dan hyfforddiant
- ☐ Prentisiaid
- ☐ Pobl o dan Hyfforddiant Ieuenctid sydd heb gyrraedd eu 25 oed
- ☐ Pobl 18 oed ac yn hyn sy'n dal yn destun taliadau budd-dal plant
- ☐ Pobl 18 & 19 oed sy'n dal i ddilyn cyrsiau addysg bellach neu a roddodd y gorau i'w cyrsiau ar ôl 30 Ebrill mewn unrhyw flwyddyn
- ☐ Aelodau o Gymunedau Crefyddol (e.e. Lleianod a Mynachod)
- ☐ * Pobl sy'n ddifrifol anabl yn feddyliol
- ☐ Gweithwyr gofal gwirfoddol
- ☐ Pobl sy'n gofalu am rywun yn y ty AC EITHRIO partner, gwr neu wraig neu blentyn o dan 18 oed
- ☐ * Carcharorion ac eithrio pobl a garcharwyd am beidio â thalu dirwy neu Dreth y Cyngor
- ☐ * Cleifion yn yr ysbyty / mewn cartref sy'n dioddef o salwch hirdymor
- ☐ Athrawon Ieithoedd Tramor Cynorthwyol
- ☐ Aelodau o luoedd arfog ar ymweliad

Os ydych yn amau eich bod yn gymwys i gael gostyngiad, ticiwch y blychau perthnasol a chewch ffurflen gais drwy'r post cyn bo hir.

## Adran D - Gostyngiad ar Gyfer Person Anabl

Os ydych wedi addasu'ch cartref ar gyfer person anabl er mwyn creu ystafell ychwanegol neu ddarparu mwy o le i gadair olwyn er enghraifft, ticiwch yma ☐. A chewch ffurflen fwy manwl i'w llenwi'n nes ymlaen.

## Adran Dd - Unrhyw Newidiadau Eraill

Gallai unrhyw newid yn eich amgylchiadau (pobl yn symud i mewn neu allan o'r ty, plant yn cyrraedd eu 18 oed, er enghraifft) effeithio ar eich cais am ostyngiad, cymorth ar gyfer person anabl neu hawl i beidio â thalu'r dreth. Nodwch eich enw llawn, y dyddiad y newidiodd eich amgylchiadau a chyfeiriad ar gyfer anfon llythyrau ymlaen os yw hynny'n berthnasol. Os yw'r newid yn golygu eich bod bellach yn gymwys i hawlio gostyngiad person sengl, ewch ati i lenwi **ADRAN C.**

______________________________________________

______________________________________________

## Adran E - Mae'n Rhiad Cwbilhau'r Datganiad

Mae'r holl wybodaeth ar y ffurflen hon yn gywir hyd y gwn i, a deallaf y bydd yn rhaid rhoi gwybod i'r Cyngor ar unwaith petal f'amgylchiadau'n newid. Rwy'n gwbl fodlon i'r Cyngor wneud ymholiadau er mwyn cadarnhau manylion y cais.

Llofnod ______________________ Enw Llawn ______________________

Rhif ffôn (gartref) ______________ Rhif ffôn (yn ystod y dydd).______________ Dyddiad __________

**Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC)** - Caiff y wybodaeth a roddir EI THRIN YN GYFRINACHOL a chaiff ei phrosesu gan a'i dadansoddi ar system gyfrifiadurol sydd wedi ei chofrestru dan ofynion y Rheoliadau:
Fe'i defnyddir ar gyfer y conlynol yn unig:

(i) Sefydlu atebolrwydd i'r Dreth Gyngot a chymhwyster ar gyfer ffyrfuay eraill o gymorth a lwfansau statudol mewn perthynas â'r Dreth Gyngor.
(ii) Gan gyflogeion awdurdodedig a chyrff cofrestredig (yr Asiantaeth Swyddfa Brisio, yr Asiantaeth Budd-daliadau); a
(iii) Ar gyfer rheoli, gweinyddu a chasglu'r Dreth Gyngor.

*Mae'n rhaid i ni amddiffyn y cyllid cyhoeddus yr ydym yn ei drafod felly mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei rhoi ar y ffurflen hon i atal neu ganfod twyll. Mae'n bosibl t byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon at yr un dibenion gyda sefydliadau eraill sy'n trafod cyllid cyhoeddus.*

**Correspondence is welcomed in English and Welsh**
**Crosawir Gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg**